**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion y cyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 15fed Tachwedd 2010 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 o'r gloch y prynhawn.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd); B Davies (Swyddog Monitro); C Hanks, P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Datblygu); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Cyhoeddus); G Jones (Rheolwr Cefnogi Gweithredol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Y Cyng E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ms C Blomeley | Aelod Annibynnol - Pwyllgor Safonau |

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cyng T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| D Docx | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| C Everett | Clerc i'r Awdurdod |

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD 20 MEDI 2010

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi yn gofnod gwir a chywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Doedd dim materion yn codi.

4 OPSIYNAU'R GYLLIDEB 2011/12

4.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad gan ymddiheuro ar ran y Dirprwy Brif Swyddog Tân nad allai fod yn y cyfarfod. Roedd yr adroddiad yn darparu diweddariad ar y sefyllfa bresennol ynglŷn â chyllideb 2011/12 ac yn adrodd yn ôl i'r Panel Gweithredol ynglŷn â'r hyn drafodwyd yng nghyfarfod y Gweithgor Datblygu Cyllideb a gynhaliwyd ar 8fed Hydref.

4.2 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi ei gyllideb ddrafft ar 17eg Tachwedd. Roedd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân wedi cwrdd â'r Gweinidog ar 9fed Tachwedd a chafwyd cadarnhad gan y Gweinidog na fyddai'r gwasanaeth tân ac achub yn cael ei ddiogelu yn y gyllideb.

4.3 Yn dilyn cyfarfod y Gweithgor Datblygu Cyllideb ar 8fed Hydref, roedd llyfryn yn cynnwys opsiynau ar gyfer gostwng y gyllideb wedi ei gynhyrchu ac fe'i hanfonir at Aelodau ddechrau wythnos 22ain Tachwedd. Ailadroddodd y Prif Swyddog Tân nad oedd y llyfryn yn cynnwys cynigiadau ond yn hytrach ystod o opsiynau ynghlwm â chostau. Caiff Aelodau gyfle i ystyried y gwahanol opsiynau cyn y cyfarfod arbennig o'r Awdurdod sydd wedi ei drefnu ar gyfer 10fed Rhagfyr pan fydd Aelodau'n cael trafodaeth gynhwysfawr cyn gwneud penderfyniadau.

4.4 Roedd Aelodau'r Gweithgor wedi amlygu na ddylid torri staff cefnogi cyn ystyried yr opsiynau rheng flaen, ond y dylid eu gostwng mewn cyfrannedd i'r gwasanaeth craidd maen nhw'n darparu ar ei gyfer.

4.5 Cafwyd gwybodaeth gefndirol gan y Trysorydd ynglŷn â thrafodion cyllideb sy'n digwydd ar draws Cymru. Nododd hefyd y byddai'r cyhoeddiad cyllideb ar 17eg Tachwedd yn darparu penawdau cyffredinol yn unig ac mai'r cyhoeddiad ar 23ain Tachwedd fyddai'n darparu gwybodaeth benodol, fodd bynnag, ni fydd y Cynulliad yn cwblhau ei gyllideb yn derfynol tan Ionawr 2011.

4.6 Esboniodd y Trysorydd mai dangosydd yn unig yw'r setliad Grant Cynnal Refeniw, a gall y Cynulliad addasu'r cwantwm yn ogystal â gwerth pob rhan.

4.7 Barn y Cynghorydd Owen oedd bod gan yr Awdurdod ddyletswydd i ddarparu amgylchedd diogel ac i ymateb i alwadau brys, ni deimlai ei fod yn addas i drafod problemau posib fyddai gan awdurdodau cyfansoddol wrth gyfrannu tuag at yr Awdurdod Tân ac Achub. Atgoffwyd Aelodau gan y Cynghorydd M Ll Davies fod ganddynt gyfrifoldeb tuag at yr Awdurdod Tân ac Achub a Gogledd Cymru gyfan ac nid eu hawdurdodau cyfansoddol.

4.8 Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Thomas am y Ffenics, cafwyd cadarnhad gan y Prif Swyddog Tân fod y prosiect yn rhan o'r strategaeth

plant a phobl ifanc ac felly roedd yn gobeithio cai'r prosiect ei ariannu yn y dyfodol.

4.9 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ac y byddai'r llyfryn Opsiynau Gostwng y Gyllideb ar gael cyn cyfarfod Arbennig yr Awdurdod ym mis Rhagfyr.**

5 MONITRO PERFFORMIAD 1AF EBRILL I 30AIN MEDI 2010

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i Aelodau am berfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn - 1af Ebrill hyd at 30ain Medi 2010.

5.2 Eglurodd Shân Morris wahanol agweddau o'r adroddiad i Aelodau gan amlygu'r canlynol:

5.3 O gymharu â'r un cyfnod llynedd bu cynnydd cyffredinol o 3% yn nifer y tanau a fynychwyd, roedd hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd o 19% mewn tanau eilaidd ac felly'n cuddio'r gostyngiad o 16% mewn prif danau. Roedd nifer y tanau eilaidd wedi bod yn eithriadol o uchel yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn.

5.4 Er bod gostyngiad o 13% yn nifer y tanau mewn eiddo annomestig, roedd yn bwysig peidio â bod yn ddi-hid amdanynt ac y dylid parhau â'r gwaith i leihau'r nifer o'r tanau hyn.

5.5 Bu gostyngiad bychan yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi. Roedd 91% o'r tanau hyn wedi eu cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, ac roedd 6% o'r tanau hyn wedi achosi anafiadau oedd angen triniaeth mwy na chymorth cyntaf neu gyngor i gael archwiliad meddygol rhagofalus.

5.6 O'r holl danau mewn cartrefi a fynychwyd yn hanner cyntaf y flwyddyn 2010/11, roedd gan 65% o'r cartrefi larwm mwg a oedd yn gweithio, o gymharu â 50% yn yr un cyfnod llynedd.

5.7 Amlygodd y Prif Swyddog Tân lwyddiant y gwaith diogelwch tân cymunedol a oedd yn amlwg o'r graff a ddangosai larymau mwg yn bresennol mewn cartrefi ble bu tân. Roedd canlyniadau llynedd wedi eu heffeithio oherwydd cyflwyno system newydd o gasglu data, ond ers 2006 pan ddechreuodd y Gwasanaeth osod larymau mwg bu gostyngiad dros y pum mlynedd o 32% i 15% yn nifer y cartrefi ble bu tân ond a oedd heb larwm mwg.

5.8 Roedd tri dosbarth gwahanol o alwadau ffug - maleisus, y rhai oherwydd larymau tân awtomatig a'r rhai didwyll. Bu gostyngiad o 16% yn nifer y galwadau ffug maleisus a fynychwyd, sy'n adlewyrchu effeithiolrwydd staff yr Ystafell Reoli wrth adnabod y math yma o alwadau a'u gallu i herio'r galwyr amheus.

5.9 O ran galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig a'r galwadau diangen didwyll a wneir, mae gwaith, ar raddfa genedlaethol, wedi ei

gwblhau'n ddiweddar i wella cywirdeb ynglŷn â sut y dosberthir y galwadau hyn.

5.10 Yn flaenorol byddai mwyafrif o'r galwadau diangen a wnaed oherwydd offer awtoganfod tân wedi eu nodi fel `galwad diangen - larwm tân awtomatig', hyd yn oed os fyddai person wedi bod yn gyfrifol am roi'r neges i'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Nawr os yw person yn clywed y larwm yn canu ac yn camfarnu'r sefyllfa ac felly'n galw'r gwasanaeth tân oherwydd ei fod yn credu'n ddidwyll fod tân, gallai hyn gael ei nodi fel `galwad diangen didwyll'.

5.11 Ystyrir mai'r ailddosbarthu hyn sy'n gyfrifol am y gostyngiad o 25% yn nifer y galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig mewn eiddo annomestig a'r cynnydd o 68% yn nifer y galwadau diangen didwyll, o gymharu â'r un cyfnod llynedd. Fodd bynnag, roedd dadansoddiad yn cael ei wneud yn lleol i sicrhau fod nifer y galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig yn cael eu dehongli yn gywir.

5.12 Canmolwyd staff yr ystafell Reoli gan y Cynghorydd M Ll Davies am eu gallu i ddadansoddi galwadau ac adnabod galwadau diangen maleisus a diolchodd iddynt am eu gwaith da parhaol.

5.13 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

**RHAN II**

6 RHAGLEN CYFALAF 2010/11

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ddiweddaru'r Aelodau am raglen cyfalaf yr Awdurdod ar gyfer yr ystadau.

6.2 Roedd y gwaith i foderneiddio ac ymestyn yr orsaf dân a'r swyddfa Ddiogelwch yn Llangefni wedi ei gwblhau. Cynhaliwyd y seremoni agoriadol swyddogol ar 14eg Hydref 2010. Diolchodd y Cynghorydd M Ll Davies i'r swyddogion am y cyfle i ymweld â'r orsaf newydd ar ôl y cyfarfod Awdurdod diwethaf. Hysbyswyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân ei fod wedi derbyn llythyr diolch gan y Gweinidog yn llongyfarch y Gwasanaeth am y gwaith a wnaed yno.

6.3 Mae tir wedi ei brynu gan Gyngor Gwynedd i adeiladu gorsaf newydd yn Nefyn yn amodol fod digon o arian cyfalaf ar gael.

6.4 Mae'r gorsafoedd tân a safleoedd hynny sydd angen cydymffurfio gyda deddfwriaeth anabledd a chydraddoldeb yn parhau i gael eu diweddaru yn ystod 2010/11 er mwyn cwrdd ag anghenion y ddeddfwriaeth, cyn belled sy'n ymarferol bosib. Dylai'r holl waith ar y 23 gorsaf fod wedi ei gwblhau erbyn mis Mehefin 2011.

6.5 Cwblhawyd y gwaith ar yr Ystafell Reoli Eilaidd a'r gwaith isadeiledd Ystafell Offer TGCh Swyddfa Diogelwch Sir Ddinbych, yn y Rhyl.

6.6 Mae swm wedi ei ddyrannu ar gyfer gwaith cynnal a chadw arfaethedig yn adeiladau'r Gwasanaeth ac mae'r gwaith yma'n digwydd ar hyn o bryd.

6.7 Cafwyd gwybodaeth gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks ynglŷn â'r datblygiadau diweddaraf gyda phrosiect tridarn Wrecsam. Cadarnhaodd eu bod yn dal i chwilio am safle addas. Er bod yr Achos Busnes Amlinellol wedi ei gymeradwyo gan y Cynulliad, ni ellir cyflwyno Achos Busnes Llawn cyn penderfynu ar safle terfynol.

6.8 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**